



## Derwen

### Canllawiau iaith.

#### 1. Cyflwyno a darparu gwasanaeth

- Darperir gwasanaeth yn unol â chynllun iaith Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Gwynedd
- Bydd y gwasanaeth a ddarperir ar gael yn y Gymraeg neu'r Saesneg, yn unol â dewis y defnyddiwr cyn belled ag sy'n bosibl yn unol ag amgylchiadau a blaenoriaeth yr achos
- Byddir yn cofnodi dewis iaith ac yn sicrhau bod defnyddwyr yn derbyn gwasanaethau cyson drwy gyfrwng eu dewis iaith cyn belled ag sy'n bosibl
- Ble nad yw hyn yn bosibl, bydd trefniadau i sicrhau un ai cyfieithydd proffesiynol neu weithiwr iechyd / gwasanaethau cymdeithasol proffesiynol Cymraeg i hwyluso cyfathrebu, yn unol ag anghenion y defnyddiwr gwasanaeth
- Pan nad oes staff clinigol arbenigol sy'n siarad Cymraeg ar gael, defnyddir llwybr gofal i ateb gofynion y defnyddiwr
- Bydd y llwybr gofal yn sicrhau bod pob cyfeiriad yn cael ei asesu'n unigol ac yn cyfarch cyfeiriadau brys ac arferol
- Gosodir camau gweithredu pendant i'w dilyn pan fo prinder staff clinigol arbenigol sy'n siarad Cymraeg
- Rhaid sicrhau bod cynnig gwasanaeth clinigol yn ôl anghenion ieithyddol y claf yn rhan o'r broses asesu ac nad oes risg glinigol yn cael ei gyflwyno drwy beidio â sicrhau hyn

#### 2. Darparu gwybodaeth

- Darperir pob gwybodaeth ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf pob tro
- Darperir gwybodaeth ar gyfer plant a phobl ifanc anabl hefyd trwy gyfryngau gweledol neu ddarpariaeth arbennig fel bo angen
- Trefnir i gyfieithu unrhyw wybodaeth i iaith gyntaf y teulu pan nad ydynt yn gyffyrddus gyda'r wybodaeth drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg na'r Saesneg a byddid yn defnyddio gwasanaeth WITS (Welsh Interpretation and Translation Services) at y diben hwn

### 3. Recriwtio staff

- Os na ellir recriwtio siaradwr Cymraeg i'r swydd gosodir gofyniad ar yr ymgeisydd llwyddiannus i ddysgu Cymraeg i lefel benodol fel amod cyflogaeth
- Defnyddir siart llif i bennu'r lefel briodol ar gyfer y swydd ar ôl cymryd i ystyriaeth gofynion y swydd, demograffeg yr ardal a gallu'r tîm presennol i ddarparu gwasanaeth dwyieithog
- Cyfrifoldeb y rheolwr fydd sicrhau'r lefel benodol ar gyfer y swydd
- Cyfrifoldeb y rheolwr fydd sicrhau bod yr amod yn cael ei gyflawni o fewn yr amser a ganiateir drwy adolygiadau 6 mis, 12 mis a 18 mis

### 4. Cefnogi ac annog ein staff presennol.

- Cynigir amodau hyfforddiant hyblyg i'r unigolion h.y. cyswllt tiwtor neu e-ddysgu
- Darperir cwrs e-ddysgu Lefel 1 gan yr iaith Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a chynigir cefnogaeth gan y Tîm Cymraeg pe bai angen
- Bydd iaith Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cyflogi tiwtor a fydd yn neilltuo cyfran o'i amser ar gyfer staff y gwasanaeth
- Bydd Cyngor Gwynedd yn annog staff i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol, ac fe'u rhyddheir, os bydd angen i ddysgu neu loywi eu sgiliau. Bydd y Cyngor yn darparu ar gyfer hyfforddi staff ar sawl lefel ac yn paratoi cyllid ar gyfer hynny.
- Wrth ddarparu i aelodau staff ddysgu'r iaith tuag at y safon briodol, bydd Cyngor Gwynedd yn paratoi a darparu hyfforddiant yn seiliedig ar asesiad manwl o anghenion yr unigolyn yn dilyn penodiad i'r swydd.

### 5. Cyfarfodydd

- Mewn cyfarfodydd cynllunio / adolygiadau ar gyfer teulu unigol trefnir y cyfarfod drwy'r iaith Gymraeg neu'r Saesneg yn unol â dewis y teulu.
- Trefnir cyfieithydd ar y pryd ar gyfer ieithoedd eraill pan yn angenrheidiol er budd y teulu
- Cynhelir unrhyw gyfarfod gwaith a drefnir gan Derwen trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg ond gydag offer cyfieithu ar y pryd ar gael i sicrhau fod pawb yn bresennol yn gallu dilyn y drafodaeth
- Cynhelir unrhyw gyfarfod cyhoeddus drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg gydag offer cyfieithu ar y pryd a chyda unrhyw gyflwyniad ysgrifenedig yn ddwyieithog

**6. Cost darparu gwasanaeth dwyieithog.**

- Rhennir cost darpariaeth cyfieithu ar y pryd a'r offer cystal a gellir rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Gwynedd
- Rhennir gwaith cyfieithu dogfennau perthnasol i'r gwasanaeth hefyd rhwng y partneriaid
- Pan na fo cyfieithydd ar y pryd ar gael gan adrannau cyfieithu'r partneriaid trefnir i gael cyfieithydd allanol ac i rannu'r gost
- Rhennir cost argraffu unrhyw wybodaeth ddwyieithog gan y partneriaid

Ig/9.07.12